

Pleidleiswyr drwy ddirprwy

- Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy – 5.00pm ddydd Mawrth 27 Ebrill.
- Pleidleisiwr drwy ddirprwy yw rhywun yr ydych yn ymddiried ynddo/ynddi ac yr ydych yn ei benodi i bleidleisio ar eich rhan.
- Rhaid i chi fod eisoes wedi cofrestru i bleidleisio er mwyn gwneud cais am bleidlais drwy ddirprwy. Gellir dod o hyd i ffurflenni a manylion llawn ynglŷn â chymhwysedd ar [wefan y Comisiwn Etholiadol](#)
- Mae'n rhaid bod eich dirprwy yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiad ac mae'n rhaid iddo/iddi fedru mynd i'ch gorsaf bleidleisio, neu mae angen iddo/iddi wneud cais i fwrw'r bleidlais drwy ddirprwy drwy'r post. Bydd eich dirprwy yn derbyn llythyr neu gerdyn pleidleisio yn eu cyfeiriad yn cynnwys y manylion angenrheidiol.
- Nid yw pleidleiswyr drwy'r post yn gymwys i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy.

Gall pleidleisiau drwy ddirprwy mewn argyfwng fod ar gael ar ôl y dyddiad cau i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy tan 5.00pm ar 6 Mai 2021 ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol penodol. Mae manylion am hynny ar gael ar [wefan y Comisiwn Etholiadol](#) neu 01495 355086/88.